

Gweithredu – Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol

Gofynnir i Awdurdodau Lleol rannu'r canllawiau hyn â chyflogwyr perthnasol, asiantaethau a sefydliadau a gomisiynir.

Ar 17 Mawrth cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai pob aelod o staff yn y GIG ac mewn gofal cymdeithasol yn cael £735 yr un. Mae'r swm hwn yn ystyried y gyfradd dreth sylfaenol a chyfraniadau yswiriant gwladol ac felly ar ôl tynnu'r rheini, bydd y rhan fwyaf o bobl yn cael £500.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y taliad hwn. Mae'r rhain wedi cael eu cyhoeddi yn:

<https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i>

<https://gov.wales/nhs-and-social-care-financial-recognition-scheme>

Bydd y taliad yn cael ei wneud i staff gofal cymdeithasol a oedd yn cael eu cyflogi mewn swydd gymwys rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021.

Mae'r nodyn hwn yn nodi sut y bydd y taliad i staff gofal cymdeithasol yn cael ei reoli.

Mae'r taliadau hyn i weithwyr yn cael eu hystyried yn enillion a byddant yn cael eu cyfrif ar gyfer treth, cyfraniadau yswiriant gwladol ac ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr, pan fo'n briodol. Byddant hefyd yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo budd-daliadau.

Bydd pob aelod o staff cymwys yn cael taliad trethadwy o £735 ar yr amod eu bod yn llenwi ffurflen hawlio ac yn ei dychwelyd i'w cyflogwr (dylai'r ffurflen hon gael ei chadw gan y cyflogwr fel prawf eu bod yn gymwys).

Dylid gwneud y taliadau drwy'r gyflogres i sicrhau bod treth incwm ac yswiriant gwladol yn cael eu trin yn briodol, ac i hwyluso'r hysbysiadau priodol i asiantaethau budd-daliadau perthnasol.

Trosolwg o'r Broses Gyflawni

- Llywodraeth Cymru yn darparu canllawiau a ffurflenni hawlio.
- cyflogwyr yn nodi'r staff cymwys ac yn rhoi ffurflenni hawlio iddynt.
- cyflogwyr yn nodi'r staff asiantaeth cymwys ac yn rhoi ffurflenni hawlio iddynt.
- Pob aelod o staff sy'n gymwys yn llenwi ac yn dychwelyd y ffurflen hawlio i'w cyflogwr neu asiantaeth.
- Cyflogwyr neu asiantaethau'n cadw'r ffurflenni hawlio ac yn cyflwyno hawliadau am gyllid i'r awdurdod lleol.
- Awdurdodau lleol yn rhoi £735 i gyflogwyr neu asiantaethau ar gyfer pob aelod o staff cymwys.
- Cyflogwyr neu asiantaethau'n talu'r staff drwy'r gyflogres.

- Cyflogwyr neu asiantaethau'n hawlio unrhyw gostau cyflogwr ychwanegol (yswiriant gwladol a phensiwn) gan yr awdurdod lleol.
- Yr awdurdod lleol yn adhawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Y Broses Gyflawni

Bydd y broses gyflawni yn dibynnu ar natur y gyflogaeth.

1. Staff a gyflogir yn uniongyrchol gan yr awdurdod lleol

- Awdurdodau lleol yn nodi'r staff cymwys maent yn eu cyflogi'n uniongyrchol (hy ar eu cyflogres) ac yn rhoi'r ffurflen hawlio iddynt.
- Staff yn llenwi ac yn cyflwyno'r ffurflen hawlio.
- Awdurdodau lleol yn ychwanegu £735 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer staff cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael.
- Awdurdodau lleol yn rhoi gwybod i CThEM am y taliadau hyn drwy ddatganiad llawn ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Awdurdodau lleol yn cyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru i dalu am gostau'r taliad, gan gynnwys unrhyw gostau gwirioneddol i'r cyflogwr o ran yswiriant gwladol neu bensiwn.

2. Cyflogwyr (ar wahân i awdurdodau lleol) staff cymwys

- Awdurdodau lleol yn rhoi ffurflenni hawlio i gyflogwyr ac yn gofyn am restr o'r staff cymwys sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol.
- Staff yn llenwi ac yn cyflwyno ffurflenni hawlio i'w cyflogwr.
- Cyflogwyr yn rhoi rhestr i'r awdurdod lleol o'r staff cymwys sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol (sydd wedi cyflwyno ffurflenni hawlio) ac mae'n rhaid cynnwys rhifau yswiriant gwladol.
- Awdurdodau lleol yn rhoi £735 i gyflogwyr am bob aelod o staff cymwys ar y rhestr a gyflogir yn uniongyrchol.
- Cyflogwyr yn ychwanegu £735 at dâl gros cyn didyniadau fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael ar gyfer staff cymwys a gyflogir yn uniongyrchol ac sydd wedi'u henwi ar y rhestr.
- Cyflogwyr yn rhoi gwybod i CThEM am y taliadau hyn drwy ddatganiad llawn ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Cyflogwyr yn anfon ffurflen hawlio at awdurdodau lleol yn cadarnhau'r taliad cyflogres gan gynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn cyflogwr gwirioneddol maent wedi'u hysgwyddo.
- Awdurdodau lleol yn darparu unrhyw gyllid atodol i gyflogwyr am unrhyw gostau yswiriant gwladol a/neu gostau pensiwn cyflogwr y maent wedi'u hysgwyddo.

3. Staff asiantaeth

- Awdurdodau lleol yn cysylltu â chyflogwyr yn gofyn iddynt am restr o'r staff asiantaeth cymwys roeddent yn eu cyflogi rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021 a'r asiantaethau a oedd wedi'u cyflenwi.
- Awdurdodau lleol wedyn yn cysylltu â'r asiantaethau a nodir uchod gyda rhestr o'r staff asiantaeth a nodwyd ynghyd â ffurflenni hawlio

gwag. Asiantaethau'n cadarnhau bod y staff asiantaeth hyn wedi gweithio i'r cyflogwyr rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021.

- Staff yn llenwi ac yn cyflwyno ffurflenni hawlio i'r asiantaeth.
- Asiantaethau yn rhoi i'r awdurdodau lleol ffurflen hawlio yn rhestru'r staff asiantaeth cymwys (sydd wedi cyflwyno ffurflenni hawlio). Dylai'r rhestr gynnwys rhif yswiriant gwladol yr holl staff cymwys.
- Awdurdodau lleol yn rhoi £735 i'r asiantaethau ar gyfer y staff sy'n gymwys.
- Asiantaethau'n ychwanegu £735 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer staff cymwys yr asiantaeth sydd ar y rhestr, fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael.
- Asiantaethau'n rhoi gwybod i CThEM am y taliadau hyn drwy gyflwyno datganiad llawn ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Asiantaethau'n anfon cadarnhad at awdurdodau lleol o'r taliad cyflogres gan gynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn cyflogwr gwirioneddol maent wedi'u hysgwyddo.
- Awdurdodau lleol yn darparu unrhyw gyllid atodol i asiantaethau am unrhyw gostau yswiriant gwladol a/neu gostau pensiwn cyflogwr y maent wedi'u hysgwyddo.

4. Asiantaethau Gofal Cartref a Gwasanaethau a Gomisiynir

- Awdurdodau lleol yn cysylltu â'r holl asiantaethau gofal cartref maent yn eu comisiynu ac unrhyw sefydliadau gofal cymdeithasol eraill sydd wedi cynnal gwasanaethau cymwys a rhoi ffurflenni hawlio gwag iddynt a gofyn am restr o'r staff cymwys.
- Asiantaethau gofal cartref a sefydliadau a gomisiynir yn anfon y ffurflen hawlio at eu staff cymwys.
- Staff yn llenwi'r ffurflenni hawlio ac yn eu cyflwyno i'w hasiantaeth/sefydliad.
- Asiantaethau/sefydliadau yn rhoi rhestr o'r staff cymwys (sydd wedi cyflwyno ffurflenni hawlio) i'r awdurdod lleol.
- Yr awdurdod lleol yn rhoi £735 i'r asiantaethau/sefydliadau ar gyfer pob aelod o staff cymwys a gyflogir sydd ar y rhestr.
- Asiantaethau/sefydliadau'n ychwanegu £735 at dâl gros cyn didyniadau fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael ar gyfer staff cymwys a gyflogir yn uniongyrchol ac sydd wedi'u henwi ar y rhestr.
- Asiantaethau/sefydliadau'n rhoi gwybod i CThEM am y taliadau hyn drwy gyflwyno datganiad llawn ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Asiantaethau/sefydliadau'n anfon ffurflen hawlio i'r awdurdod lleol yn cadarnhau'r taliadau cyflogres gan gynnwys unrhyw gostau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn cyflogwr gwirioneddol maent wedi'u hysgwyddo.
- Awdurdodau lleol yn darparu unrhyw gyllid atodol i ddarparwyr gofal ar gyfer unrhyw gostau yswiriant gwladol a/neu gostau pensiwn cyflogwr y maent wedi'u hysgwyddo.

5. Cynorthwyr Personol

Mae'r prosesau safonol ar gyfer talu Cynorthwywyr Personol wedi'u nodi isod. Fodd bynnag, gan fod trefniadau talu Cynorthwywyr Personol yn gallu amrywio ledled Cymru, gall awdurdodau lleol newid y prosesau hyn os gallant nodi dull mwy effeithiol a chosteffeithlon o dalu. Beth bynnag yw'r broses a ddilynir, dyma'r egwyddorion sylfaenol y mae'n rhaid eu dilyn:

- Rhaid i'r Cynorthwydd Personol lofnodi a chyflwyno ffurflen hawlio. Yn ddelfrydol dylai hon gael ei hanfon at eu cyflogwyr, ond dylai o leiaf gael ei chadw gan yr awdurdod lleol neu fod ar gael iddo allu cael gafael arni;
- Rhaid hysbysu'r sawl sy'n cyflogi'r Cynorthwydd Personol bod y taliad yn cael ei wneud.

Dyma'r prosesau safonol a awgrymir:

Naill ai

- Awdurdodau lleol yn nodi'r Cynorthwywyr Personol cymwys sy'n cael eu hariannu drwy wasanaethau cymorth y gyflogres.
- Awdurdodau lleol yn dosbarthu ffurflenni hawlio i Gynorthwywyr Personol.
- Cynorthwywyr Personol yn llenwi'r ffurflenni hawlio ac yn eu rhoi i'r cyflogwr (sef y sawl sy'n derbyn gofal) a fydd yn eu hanfon ymlaen at yr awdurdod lleol (comisiynu) perthnasol.
- Awdurdodau lleol yn gofyn i wasanaethau cymorth y gyflogres ychwanegu £735 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer Cynorthwywyr Personol cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael ac yn darparu'r lefel briodol o gyllid i wasanaethau cymorth y gyflogres.
- Dylai gwasanaethau cymorth y gyflogres adrodd am y taliadau hyn drwy gyflwyno datganiad llawn i CThEM ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Awdurdodau lleol yn cyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru i ariannu'r taliad o £735 ac unrhyw gostau gwirioneddol i'r cyflogwr o ran yswiriant gwladol neu gostau pensiwn.

Neu

- Awdurdodau lleol yn nodi'r Cynorthwywyr Personol y mae eu cyflogwr (y sawl sy'n derbyn gofal) yn eu talu'n uniongyrchol.
- Awdurdodau lleol yn rhoi ffurflenni hawlio gwag i'r cyflogwr ac yn gofyn iddo eu hanfon ymlaen at eu Cynorthwywyr Personol (os ystyrir eu bod yn gymwys).

- Cynorthwyr Personol yn llenwi'r ffurflenni hawlio ac yn eu rhoi i'w cyflogwr (y sawl sy'n derbyn gofal) sydd wedyn yn eu hanfon at yr awdurdod lleol (comisiynu) perthnasol.
- Awdurdodau lleol yn rhoi £735 i'r cyflogwr ar gyfer pob Cynorthwydd Personol cymwys.
- Cyflogwr yn ychwanegu £735 at y cyflog gros cyn didyniadau ar gyfer Cynorthwyr Personol cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael.
- Cyflogwyr yn rhoi gwybod i CThEM am y taliadau hyn drwy ddatganiad llawn ar y dyddiad talu neu cyn hynny.
- Cyflogwyr yn cadarnhau'r taliad i'r awdurdod ac yn hawlio unrhyw gostau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn cyflogwr gwirioneddol y maent wedi'u hysgwyddo.

Rôl Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru fydd yn ariannu'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys:

- costau'r taliad £735;
- unrhyw gostau cyflogwr yng nghyswllt cyfraniadau yswiriant gwladol dosbarth 1 (eilaidd) a phensiynau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r taliad £735;
- ad-daliad o'r costau ychwanegol y mae'r awdurdodau lleol wedi'u hysgwyddo wrth roi'r cynllun ar waith. Cyfyngir y cyllid hwn i gynnydd mewn costau yn sgil y cynllun, a gallai gynnwys eitemau fel taliadau goramser i staff awdurdodau lleol neu gostau staff dros dro byrdymor. Dylai'r costau hyn fod yn gymedrol ac yn eithriadol; ac
- ad-dalu costau cyflogwyr ar gyfradd safonol o £2 yr hawliad.
- Ad-dalu costau cyflogwyr penodol ychwanegol yn amodol ar ddarparu tystiolaeth ategol ac yn ôl disgrisiwn Llywodraeth Cymru

Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ad-dalu:

- costau staff presennol awdurdodau lleol; neu
- treth incwm a/neu ddidyniadau yswiriant gwladol sy'n deillio o'r taliad £735.

Bydd Llywodraeth Cymru yn casglu data cryno gan yr awdurdodau lleol (gweler ffurflen 6) sy'n dangos costau'r cynllun fesul cyflogwr ac, yn amodol ar delerau'r grant i'r awdurdod lleol, bydd yn darparu cyllid.

Rôl yr Awdurdodau Lleol

Byddant yn gwneud y canlynol:

- rheoli'r gwaith o gyflawni'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru;
- sicrhau bod holl staff cymwys yr awdurdod lleol yn derbyn y taliad.
- rheoli'r cynllun ar sail ddaearyddol ar gyfer cartrefi gofal, gofal cartref a Chynorthwyr Personol

- rheoli'r cynllun ar sail gofal wedi'i gomisiynu ar gyfer pob gwasanaeth arall. Sylwer: gall un awdurdod lleol gymryd yr awenau a gwneud pob taliad i un darparwr i atal y darparwr hwnnw rhag gorfod delio â nifer o awdurdodau lleol, ond rhaid i unrhyw drefniadau o'r fath gael eu cyfleu'n glir i bawb dan sylw.);
- cysylltu â darparwyr gofal i ofyn am y canlynol:
 - rhestr o staff cymwys (gan gynnwys enwau a rhifau yswiriant gwladol) a gyflogir yn uniongyrchol gan y cyflogwr (hy maent ar gyflogres y cyflogwyr); a
 - rhestr o staff asiantaeth cymwys (gan gynnwys enwau a rhifau yswiriant gwladol) ynghyd â'r asiantaeth a'u darparodd.
- casglu a choladu rhestrau o staff gan gyflogwyr ac asiantaethau i greu rhestr awdurdod lleol o bobl (gan gynnwys enwau a rhifau yswiriant gwladol) sydd wedi cyflwyno hawliad am daliad.
- gwirio rhestr eu hawdurdod i sicrhau ei bod yn rhesymol (gweler yr adran Tystiolaeth a Dilysu Hawliadau yn ddiweddarach yn y canllawiau hyn), gan sicrhau bod nifer yr hawliadau gan gyflogwyr yn cyd-fynd â maint a graddfa'r cyflogwr;
- gwirio rhestr eu hawdurdod lleol am hawliadau dyblyg (gan ddefnyddio rhifau yswiriant gwladol);
- cytuno â chyflogwyr ac asiantaethau gofal ar sut byddant yn cadw ac yn rheoli data personol yn unol â rheoliadau a phrotocolau GDPR y DU;
- nodi pob cynorthwydd personol a sicrhau eu bod yn derbyn y taliad yn y modd mwyaf priodol;
- darparu rhestr o'r holl bobl sy'n cael eu talu, gan gynnwys eu rhifau yswiriant gwladol, i Data Cymru, ac os gofynnir am hynny gan Gydwasanaethau'r GIG
- cadw cofnodion digonol i fodloni'r archwilwyr; a
- sicrhau bod mesurau ar waith i leihau'r risg o dwyll neu golledion.

Rôl cyflogwyr staff sy'n gymwys i gael taliad

Maent yn gyfrifol am y canlynol:

- Nodi'r holl staff cymwys a oedd yn gweithio iddynt rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021, gan gynnwys staff sydd wedi gadael eu swyddi ers hynny;
- Rhoi ffurflenni hawlio i bob aelod staff sy'n gymwys;
- Casglu ffurflenni hawlio a'u cadw at ddibenion archwilio/gwirio;
- Anfon rhestr, ar y ffurflen hawlio, o'r holl staff cymwys a fu'n gweithio i'r cyflogwr i'r awdurdod lleol gan gadarnhau eu bod wedi derbyn ffurflen hawlio gan yr holl staff ar y rhestr;
- Dylai'r rhestr hon nodi staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y cyflogwr ar wahân (hy staff ar eu cyflogres) a staff a oedd yn gweithio iddynt o dan drefniant asiantaeth;
- Os oes staff asiantaeth cymwys, dylai'r cyflogwr ddarparu rhestr o enwau ynghyd ag enw'r asiantaeth a ddefnyddiwyd a manylion cyswllt yr asiantaeth.

- Os bydd yr awdurdod lleol yn fodlon ar y rhestr, bydd yr awdurdod lleol yn darparu £735 i'r cyflogwyr ar gyfer pob aelod staff cymwys sy'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol;
- Dylai cyflogwyr ychwanegu £735 at gyflog yr holl staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol fel rhan o'u cyflogres nesaf;
- Ar ôl y gyflogres, dylai'r cyflogwr, lle bo angen, gyflwyno hawliad atodol i'r awdurdod lleol i ofyn am gyllid ychwanegol i dalu costau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn y cyflogwr; Rhaid cyflwyno'r hawliad hwn o fewn wyth wythnos i dderbyn y £735 gan yr awdurdod lleol (oni bai fod taliadau fesul cam – gweler yr adran ar amseru taliadau isod);
- Ar yr amod bod yr hawliad atodol hwn yn cael ei gyflwyno'n brydlon, yn cyd-fynd â'r rhestr o enwau a roddwyd i'r awdurdod lleol, ac y cyflwynir tystiolaeth ategol, bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid ar gyfer unrhyw gostau yswiriant gwladol neu gostau pensiwn a ysgwyddwyd gan y cyflogwr.

Rôl Asiantaethau a Sefydliadau a Gomisiynwyd

Maent yn gyfrifol am y canlynol:

- gwirio'r rhestrau o staff asiantaeth (a ddarparwyd gan yr awdurdodau lleol) i sicrhau bod yr holl staff yn gweithio rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021;
- Rhoi ffurflenni hawlio i'r holl staff asiantaeth sy'n gymwys;
- Casglu ffurflenni hawlio a'u cadw at ddibenion archwilio/gwirio;
- Anfon rhestr o'r holl staff cymwys, ar ffurflen hawlio, at eu hawdurdodau lleol yn cadarnhau eu bod wedi cael ffurflen hawlio gan yr holl staff sydd ar y rhestr;
- Yn amodol ar gymeradwyaeth yr awdurdod lleol, bydd yr awdurdod lleol yn darparu £735 i'r asiantaeth ar gyfer staff asiantaeth cymwys
- Dylai asiantaethau ychwanegu £735 at gyflog yr holl staff asiantaeth cymwys fel rhan o'r gyflogres nesaf sydd ar gael;
- Ar ôl y gyflogres, dylai'r asiantaeth, lle bo angen, gyflwyno hawliad atodol i'r awdurdod lleol i ofyn am gyllid ychwanegol i dalu am unrhyw argostau a gafodd y cyflogwr;
- Ar yr amod bod yr hawliad atodol hwn yn cael ei gyflwyno'n brydlon, yn cyd-fynd â'r rhestr o enwau a roddwyd i'r awdurdod lleol, ac y cyflwynir tystiolaeth ategol, bydd yr awdurdod lleol yn darparu cyllid ar gyfer unrhyw argostau a ysgwyddwyd gan y cyflogwr.

Amseriad y taliadau a'r hawliadau

Dylai cyflogwyr nodi'r staff sy'n gymwys a dechrau hawlio'r cyllid ar eu cyfer gan yr awdurdod lleol cyn gynted â phosibl, ond rhaid i'r ffurflenni hawlio hyn gael eu cyflwyno i'r awdurdodau lleol cyn 30 Medi 2021. Dim ond ar sail eithriadol y caiff taliadau y tu hwnt i'r dyddiad hwn (ac eithrio taliadau fesul cam) eu hariannu.

Unwaith y byddant wedi derbyn y cyllid, dylai cyflogwyr dalu'r gweithwyr sy'n gymwys drwy'r gyflogres cyn gynted â phosibl.

Dylai cyflogwyr gyflwyno unrhyw hawliadau am gostau yswiriant gwladol a neu gostau pensiwn cyflogwr o fewn wyth wythnos i dderbyn cyllid i dalu'r £735. Gallai peidio â gwneud hynny olygu na fydd yr hawliadau'n cael eu talu.

Rhaid i gyflogwyr gyflwyno pob hawliad i awdurdodau lleol erbyn 30 Tachwedd 2021. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ariennir hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn (ac eithrio taliadau fesul cam).

Dylai awdurdodau lleol adhawlio'r arian y maent wedi'i ddarparu i gyflogwyr gan Lywodraeth Cymru erbyn 31 Ionawr 2022. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yr ariennir hawliadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn (ac eithrio taliadau fesul cam).

Tystiolaeth a dilysu hawliadau

Er y cydnabyddir ei bod hi'n anodd casglu tystiolaeth bendant i gadarnhau pob hawliad, rhaid i gyflogwyr, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru wneud pob ymdrech resymol i ddiogelu arian cyhoeddus a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod cyllid ond yn cael ei ddarparu er mwyn talu staff cymwys.

Pan fydd awdurdodau lleol yn cael ffurflenni hawlio, yn rhestru'r staff cymwys, gan gyflogwyr a/neu asiantaethau, dylent sicrhau bod yr holl staff y bydd arian yn cael ei hawlio ar eu cyfer mewn rolau cymwys (fel y nodir yn y canllawiau cymhwysedd) drwy nodi categori swydd priodol ar y ffurflen hawlio.

Dylai awdurdodau lleol hefyd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wasanaethau a gomisiynir, asesu a yw nifer y taliadau sy'n cael eu hawlio yn rhesymol o ran maint a math y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan bob darparwr a gomisiynir.

Dylai awdurdodau lleol hefyd wirio nad yw'r holl hawliadau am yswiriant gwladol cyflogwyr yn fwy na 13.8%.

Dylai awdurdodau lleol gwestiynu unrhyw hawliadau sy'n cynnwys cyfraddau pensiwn cyflogwyr sy'n uwch na 6%.

Dylai pob awdurdod lleol gadw prif gofnod/taenlen o'r holl staff cymwys. Dylai hyn gynnwys rhifau yswiriant gwladol yr holl staff cymwys sydd wedi cael y taliad. Bydd hyn yn helpu'r awdurdodau lleol i warchod rhag taliadau dwbl, lle gallai staff fod wedi gweithio i fwy nag un cyflogwr

Bydd Data Cymru yn cynnal cofrestr Cymru gyfan ar ran yr awdurdodau lleol o enwau a rhifau yswiriant gwladol y bobl sydd wedi derbyn y taliad. Defnyddir y gofrestr hon i chwilio am daliadau dyblyg ar draws awdurdodau lleol. Bydd y gofrestr hon ond yn cynnwys rhestr o enwau a rhifau yswiriant gwladol yn ôl yr awdurdod lleol a oedd wedi talu'r taliadau. Bydd y gofrestr hon yn cael ei chroesgyfeirio â chofrestr debyg sy'n cael ei llunio gan y GIG, a bydd angen i'r awdurdod lleol perthnasol ymchwilio i unrhyw daliadau dyblyg.

Dylai **cyflogwyr** gasglu a chadw ffurflenni hawlio wedi'u llenwi gan eu gweithwyr.

Dylai **awdurdodau lleol** gasglu a chadw gwybodaeth gan gyflogwyr sy'n dangos gwerth cyfanswm y taliadau i weithwyr.

Y dystiolaeth sylfaenol sy'n ofynnol yw ffurflen hawlio gychwynnol gan y cyflogwr (ffurflen 3a neu 3b) a ffurflen hawlio cyflogwr terfynol (ffurflen 4 neu 5).

Pan fo'n bosibl, dylai'r ffurflenni hyn gael eu hategu gan dystiolaeth gan y cyflogwr pan fydd dystiolaeth o'r fath ar gael. Gallai hyn gynnwys:

- Adroddiad gan system ariannol a/neu gyflogres y cyflogwr yn dangos gwir gostau'r dyfarniad;
- unrhyw wybodaeth arall mae'r cyflogwr yn gallu ei darparu'n hawdd i gefnogi'r hawliad.

Ni ddylai cyflogwyr gyflwyno:

- Copïau o slipiau cyflog gweithwyr
- Unrhyw wybodaeth bersonol arall sy'n ymwneud â gweithiwr nad oes ei hangen er mwyn rhoi dystiolaeth o'r taliad gwerth gwirioneddol.

Bydd awdurdodau lleol a chyflogwyr yn derbyn trefn o gynnal cyfrifon agored fel sydd wedi'i mabwysiadu'n llwyddiannus ar gyfer cynlluniau eraill. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer unrhyw brofion sampl/hapwiriadau pan ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

Rhaid i gyflogwyr fod yn ymwybodol bod angen iddynt gadw'r ffurflenni hawlio sy'n cadarnhau eu hawliadau ac efallai y gofynnir iddynt eu cynhyrchu fel dystiolaeth. Gallai methu â dangos y ffurflenni hyn arwain at hawlio'r arian yn ôl.

Grant Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cynllun grant arbennig i ariannu'r taliad hwn. Bydd awdurdodau lleol yn derbyn llythyrau cynnig grant a gallant hawlio cyllid gan Lywodraeth Cymru ar ôl iddynt lofnodi a dychwelyd y llythyrau hyn, yn unol â thelerau ac amodau'r grant.

Y ffurflenni i'w defnyddio (enghreiffiau wedi'u cynnwys isod)

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu ffurflenni electronig i awdurdodau lleol. Bydd ffurflen 1 yn Microsoft Word a'r ffurflenni eraill yn Microsoft Excel.

Ffurflen 1 - Ffurflen hawlio'r gweithiwr. Bwriad hon yw:

- Helpu'r gweithiwr i gael cyngor ar sut y gallai'r taliad hwn effeithio ar ei fudd-daliadau.

- Gofyn i weithwyr roi gwybod i'w cyflogwr am unrhyw ffurflenni hawlio dyblyg y maent wedi'u derbyn
- Rhoi gwybod i weithwyr mai dim ond un taliad y mae ganddynt hawl iddo a bydd cyflwyno hawliadau am fwy nag un taliad yn dwyll.
- Gofyn i'r gweithiwr gadarnhau ei ddewis talu (un taliad neu bum taliad misol cyfartal).
- Rhoi gwybod i'r gweithiwr sut y caiff ei ddata personol eu defnyddio a'u rhannu er mwyn gweinyddu'r taliad (gwybodaeth am breifatrwydd).
- Gofyn i'r gweithiwr gadarnhau ei fod yn gymwys i gael y taliad.

Ffurflen 2 - ffurflen hawlio'r awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru ar gyfer staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.

Ffurflen 3 – ffurflen hysbysu'r cyflogwr. Mae hon wedi'i rhannu'n:

- Ffurflen 3a – sy'n rhestru'r holl staff a gyflogir yn uniongyrchol. Bydd yr awdurdod lleol yn defnyddio hon i roi arian i'r cyflogwr; a
- Ffurflen 3b – sy'n rhestru unrhyw staff asiantaeth cymwys. Dylid anfon yr wybodaeth ar y ffurflen hon at yr asiantaethau perthnasol er mwyn iddynt ei chadarnhau.

Ffurflen 4 - ffurflen hawlio'r gweithiwr. Mae hon yn debyg i ffurflen 3a ond mae'n cynnwys costau cyflog gwirioneddol pob aelod o staff a gyflogir yn uniongyrchol. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar ôl i'r £735 gael ei dalu a bod cyflogwyr yn gwybod beth yw costau gwirioneddol y cyflogwr o ran unrhyw gostau pensiwn neu yswiriant gwladol. Dylai'r ffurflen hon gael ei hategu gan ran/adroddiad o gyflogres y cyflogwr yn profi'r costau hyn.

Ffurflen 5 – ffurflen hawlio'r asiantaeth/sefydliad a gomisiynir. Mae hon yn debyg i ffurflen 3b ond mae'n cynnwys costau cyflog gwirioneddol pob aelod o staff yr asiantaeth/sefydliad. Dylid cyflwyno'r ffurflen hon ar ôl i'r £735 gael ei dalu a bod yr asiantaeth yn gwybod beth yw costau gwirioneddol y cyflogwr o ran unrhyw gostau pensiwn neu yswiriant gwladol. Dylai'r ffurflen hon gael ei hategu gan ran/adroddiad o gyflogres y cyflogwr yn profi'r costau.

Ffurflen 6 – ffurflen hawlio'r awdurdod lleol. Er mwyn i'r awdurdodau lleol allu adhawlio gan Lywodraeth Cymru gostau'r taliadau y maent wedi'u hariannu.

Canllawiau i unigolion

Bydd y rhain yn cael eu darparu i unigolion fel rhan o ffurflen hawlio'r gweithiwr (ffurflen 1). Bydd yn nodi lle gall gweithwyr gael rhagor o gyngor a chanllawiau ar

oblygiadau'r taliad hwn ar fudd-daliadau, treth ac yswiriant gwladol ac ad-dalu benthyciadau myfyrwyr.

Bydd y ffurflen hefyd yn gofyn i'r gweithwyr ddatgan: eu bod yn gymwys; mai dim ond unwaith y byddant yn hawlio, waeth faint o swyddi cymwys y gallent fod wedi'u cael; ac y byddant yn rhoi gwybod am unrhyw daliadau dyblyg. Mae'r ffurflen hefyd yn gofyn i weithwyr a ydynt yn dymuno cael un taliad o £735 neu £147 am bum mis ac mae'n rhoi gwybod iddynt am yr wybodaeth bersonol a fydd yn cael ei rhannu â'r awdurdod lleol, Data Cymru ac os gofynnir am hynny gan Gydwasaethau'r GIG i sicrhau cydymffurfiaeth â'r GDPR.

Staff sydd wedi gadael cyflogaeth

Os bydd cyflogwr yn nodi unrhyw un sy'n gymwys i gael y taliad ond sydd wedi gadael ei gyflogaeth wedi hynny, dylai anfon ffurflen hawlio ato a'i phrosesu gyda ffurflenni ei weithlu presennol. Yr unig eithriad yw os yw'r aelod staff wedi'i ddiswyddo (diswyddo yn y fan a'r lle am gamymddygiad difrifol). Ar ôl i'r cyflogwr gael y ffurflen hawlio, dylai ddilyn gweithdrefn y gyflogres ar gyfer adrodd a gwneud 'taliad ar ôl gadael' i CThEM. Os rhoddwyd P45 i'r gweithiwr ar ôl iddo adael, y cod treth i'w ddefnyddio yw OT Week1.

Os nad oes P45 wedi'i roi, dylai'r cyflogwr ddefnyddio'r cod treth hysbys diwethaf.

At ddibenion Yswiriant Gwladol, dylid asesu'r 'taliad ar ôl gadael' gan ddefnyddio cyfnod enillion wythnosol.

Os nad yw cyflogwyr yn gallu cysylltu â staff cymwys sydd wedi gadael eu cyflogaeth, dylai'r cyflogwr ddweud wrth ei awdurdod lleol, ond ni ddarperir arian i'r staff hyn nes y byddant wedi cyflwyno ffurflen hawlio.

Staff nad oeddent yn y gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw

Mae staff a oedd yn absennol am y cyfan o'r cyfnod perthnasol oherwydd salwch hirdymor, cyfnod mamolaeth, gwarchod eu hunain, neu resymau eraill, yn parhau i fod yn gymwys i gael taliad, a dylid prosesu'r hawliadau ar eu cyfer hwythau fel y disgrifir yn y canllawiau hyn.

Staff sydd wedi cael eu diswyddo

Os yw gweithiwr gofal sydd wedi gweithio mewn swydd gymwys wedi'i ddiswyddo (diswyddiad yn y fan a'r lle am gamymddygiad difrifol) o'r rôl honno, nid yw bellach yn gymwys i gael y taliad. Mae hyn yn wir p'un ai a oedd y diswyddiad yn ystod y cyfnod cymwys neu ar ei ôl.

Os bydd diswyddiad y gweithiwr gofal wedi'i wrthdroi neu os canfuwyd ei fod yn annheg gan driwlynys cyflogaeth, bydd yn gymwys i gael y taliad (gweler y meini prawf cymhwysedd uchod).

Taliadau fesul cam

Yn ddelfrydol, byddai pob taliad yn cael ei wneud ar y cyfle cyntaf mewn un cyfandaliad. Fodd bynnag, efallai y byddai'n well gan rai gweithwyr wasgaru'r taliad dros amser i gyd-fynd yn well â'u hamgylchiadau personol. Mewn achosion o'r fath, mae dewis i dderbyn y taliad mewn pum rhandaliad o £147 cyfartal dros 5 mis yn olynol. Os dewisir yr opsiwn rhandaliadau, rhaid i'r cyflogwr dalu pob rhandaliad cyn diwedd Tachwedd 2021. Yn yr achosion hyn, bydd yr awdurdod lleol yn darparu £735 i'r cyflogwr i ariannu pob un o'r pum rhandaliad. Rhaid i'r cyflogwr roi tystiolaeth o argostau i'r awdurdod lleol unwaith y bydd pob un o'r pum rhandaliad wedi'u talu.

Dim ond y gweithiwr sy'n cael penderfynu a yw'n dymuno cael ei dalu fesul cam. Ni ddylai cyflogwyr benderfynu a ydynt am wneud taliadau fesul cam ai peidio.

Os bydd gweithiwr sy'n cael taliad fesul cam yn gadael y swydd cyn i'r holl daliadau gael eu gwneud, bydd yn cael yr holl daliadau sy'n weddill fel rhan o'i gyflogres derfynol.

Nid yw taliadau fesul cam ar gael i bobl nad ydynt bellach yn gweithio i'r cyflogwr sy'n gwneud y taliad. Telir yr £735 i'r rhain mewn un cyfandaliad.

Dim ond i staff sy'n cael eu talu bob mis y mae'r opsiwn talu hwn ar gael. Bydd staff a delir yn wythnosol yn derbyn y taliad llawn o £735 mewn un cyfandaliad.

Rheoli Data

Mae pob sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod y data y maent yn eu casglu a'u cadw yn cydymffurfio â'r rheoliadau GDPR perthnasol.

Gofynnir i staff gadarnhau ar eu ffurflen hawlio eu bod yn fodlon i wybodaeth bersonol gael ei rhannu rhwng eu cyflogwr a'r awdurdod lleol at ddibenion gwneud y taliad hwn yn unig ac â Data Cymru a Chydwasanaethau'r GIG er mwyn dod o hyd i unrhyw daliadau dyblyg.

At ddibenion GDPR, yr awdurdodau lleol fydd y rheolyddion data. O'r herwydd, rhaid iddynt fodloni eu hunain bod y datganiad preifatrwydd ar y ffurflen hawlio yn ddigonol ar gyfer eu safonau diogelu data eu hunain. O'r herwydd, mae awdurdodau lleol yn cael diwygio'r datganiad preifatrwydd hwn.

Ni fydd Llywodraeth Cymru ond yn casglu ac yn cadw data cryno – gan nodi costau a nifer y taliadau yn ôl cyflogwr.

Dylai'r awdurdodau lleol gasglu a chadw rhestrau o'r holl staff cymwys sy'n cael y taliad £735. Bydd y data yn cynnwys enwau, rhif yswiriant gwladol a chostau pob unigolyn.

Bydd cyflogwyr uniongyrchol (gallai'r rhain fod yn awdurdodau lleol, cyflogwyr neu asiantaethau) yn casglu ac yn cadw'r holl ffurflenni hawlio a gyflwynir gan staff.

Y Broses Apelio

Mae'r broses apelio wedi'i nodi mewn dogfen ar wahân.

Gweinyddu'r cynllun

O bryd i'w gilydd, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at awdurdodau lleol yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am nifer y dyfarniadau y maent wedi'u hariannu ac wedi cytuno i'w hariannu. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu Llywodraeth Cymru i reoli'r cynllun yn fewnol ac ni ddylai atal y broses o ddarparu cyllid i ddarparwyr gofal, asiantaethau neu gyflogwyr.

Ni ddylai awdurdodau lleol anfon rhestrau manwl o weithwyr i Lywodraeth Cymru.

Costau gorbenion/gweinyddu/Ardoll Brentisiaethau

Costau gweinyddu'r cynllun i awdurdodau lleol

Mae gan awdurdodau lleol hawl i hawlio costau gorbenion ychwanegol o ganlyniad i weinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru. Mae ganddynt hawl i hawlio ad-daliad am y costau hyn ar yr amod eu bod yn amlwg yn ychwanegol at y sylfaen costau bresennol. Er enghraifft, ni fyddai costau staff presennol yr awdurdod lleol yn cael eu had-dalu ond gellid ad-dalu taliadau goramser i staff presennol yr awdurdod lleol sy'n gweithio ar y cynllun ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn gallu dangos tystiolaeth bod angen goramser i gyflawni'r cynllun yn llwyddiannus.

Gellir hawlio'r costau hyn fel rhan o ffurflen 6, ffurflen hawlio'r awdurdod lleol.

Costau Gweinyddu Cyflogwr

Mae gan bob cyflogwr, gan gynnwys awdurdodau lleol, hawl i hawlio costau gwneud y taliad (ee costau sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i'r gyflogres). Mae'r costau hyn yn cael eu had-dalu ar gyfradd safonol o £2 fesul hawliad.

Ar ben hynny, caiff cyflogwyr hawlio costau gorbenion os yw'n gallu dangos bod talu'r £735 wedi arwain at gostau ychwanegol iddynt sy'n fwy na'r £2 fesul hawliad fel y nodir uchod. Dylid cyflwyno unrhyw hawliadau o'r fath gyda thystiolaeth ategol (er enghraifft anfoneb gan asiantaeth cyflogres).

Os yw cyflogwr yn gymwys i dalu'r ardoll brentisiaethau, gallant adhawlio costau'r ardoll sy'n berthnasol i'r taliad. Ni ddylai hyn fod yn fwy na 0.5% o'r hawliad.

Gellir hawlio unrhyw un o'r costau hyn fel rhan o ffurflenni 2, 4 neu 5.

Cwestiynau Cyffredin

Pam mae angen ffurflenni hawlio a beth fydd yn digwydd iddynt?

Mae angen ffurflenni hawlio i roi tystiolaeth i gadarnhau bod y gweithiwr a'r cyflogwr wedi cadarnhau bod y gweithiwr yn gymwys i gael y taliad.

I gyflymu'r broses ac i osgoi costau argraffu a phostio gall ffurflenni hawlio'r gweithwyr gael eu hanfon a'u dychwelyd yn electronig. Bydd ffurflenni electronig yn ddilys ar yr amod y cânt eu cyflwyno drwy gyfrif e-bost sydd yn enw'r gweithiwr.

Rhaid i'r ffurflenni hawlio gael eu cadw gan y cyflogwr uniongyrchol am o leiaf 24 mis ar ôl dyddiad y taliad. Gellir cadw'r ffurflenni hyn yn electronig neu ar ffurf copi caled. Efallai y gofynnir i gyflogwyr ddangos y ffurflenni os bydd awdurdodau lleol neu archwilwyr yn gofyn iddynt. Gallai methu â dangos ffurflenni hawlio i gyfiawnhau hawliadau arwain at hawlio cyllid yn ôl.

Beth ddylai'r trefniadau talu fod rhwng awdurdodau lleol a chyflogwyr neu asiantaethau?

Mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu hyn. Dylent geisio defnyddio'r dulliau talu presennol os oes modd. Yn niffyg dull talu presennol priodol, dylai awdurdodau lleol greu trefniant grant sylfaenol gan ddefnyddio cymalau a thelerau ac amodau safonol.

Sut mae cyflogwyr yn profi bod y taliadau wedi cael eu gwneud?

Gofynnir i gyflogwyr gyflwyno ffurflen 4 wedi'i llenwi (ar gyfer darparwyr gofal) neu ffurflen 5 (ar gyfer asiantaethau/sefydliadau a gomisiynir) i'r awdurdod lleol. Yn ddelfrydol, i gyd-fynd â hyn dylai'r cyflogwyr gyflwyno adroddiad ariannol sy'n dangos bod y taliadau wedi'u gwneud i'r staff a restrir ar y ffurflen. Fodd bynnag, bydd y ffurflen hawlio yn ddigon i ddangos bod y taliadau wedi'u gwneud ac i ryddhau unrhyw gyllid atodol ar gyfer costau yswiriant gwladol neu bensiwn cyflogwr ar yr amod bod y costau a hawliar o fewn y paramedrau a nodir isod.

- nid yw pob hawliad am yswiriant gwladol cyflogwr yn fwy na 13.8%.
- unrhyw hawliadau sy'n cynnwys cyfraddau pensiwn cyflogwr sy'n uwch na 6%.

Sut mae cyflogwr yn nodi'r incwm i ariannu'r taliadau hyn yn eu cyfrifon?

Dylai'r taliadau £735 ynghyd â'r argostau a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru drwy'r awdurdodau lleol gael eu cydnabod yng nghyfrifon cyflogwyr fel incwm trethadwy. Bydd cyflogwyr yn gallu hawlio didyniad cyfatebol ar gyfer costau

gweithwyr yn eu cyfrifon, felly nid oes unrhyw effaith net ar elw trethadwy cyffredinol y cyflogwr.

Beth sy'n digwydd os oes gan ddarparwr nifer o leoliadau gofal mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol?

Os oes gan ddarparwr nifer o leoliadau wedi'u gwasgaru ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol, gall yr awdurdodau lleol perthnasol a'r darparwr gytuno, drwy gydsyniad y naill a'r llall, y dylai un awdurdod lleol arwain y taliadau ar gyfer pob lleoliad i'r darparwr hwnnw er mwyn lleihau cymhlethdod a'r baich gweinyddol ar ddarparwyr ac awdurdodau lleol.

Beth os caiff gwasanaeth (gan gynnwys asiantaethau gofal cartref) ei gomisiynu gan sawl awdurdod lleol?

Bydd angen i'r sefydliad sy'n cyflogi gasglu ffurflenni hawlio wedi'u llofnodi gan ei staff a chyflwyno ffurflen hawlio i'r awdurdod lleol perthnasol. Os yw staff y sefydliad yn darparu gofal neu wasanaethau i fwy nag un awdurdod lleol, dylai'r sefydliad sicrhau mai dim ond un ffurflen hawlio a gyflwynir fesul gweithiwr a dylai hyn fod ar gyfer yr awdurdod lleol lle y darperir y rhan fwyaf o'r gofal. Gall awdurdodau lleol a sefydliadau gytuno, drwy gydsyniad, y dylai un awdurdod lleol arwain y taliadau ar gyfer gweithwyr o sefydliad er mwyn lleihau cymhlethdod a baich gweinyddol i'r sefydliadau ac i'r awdurdodau lleol.

A yw'r taliadau hyn yn bensiynadwy?

Mae p'un a yw'r taliad yn bensiynadwy ai peidio yn dibynnu ar delerau ac amodau cynllun pensiwn y cyflogai. Mae taliadau bonws yn bensiynadwy fel arfer oni bai fod amod yng nghynllun pensiwn y gweithiwr yn dweud nad ydynt. Gofynnir i gyflogwyr wneud yn siŵr bod y taliadau'n cael eu trin yn gywir.

Os yw'r taliad yn bensiynadwy, bydd cyfraniad pensiwn y gweithiwr yn cael ei ddidynnu o'i daliad a bydd y cyflogwr yn ysgwyddo cost pensiwn. Bydd unrhyw gostau pensiwn cyflogwr sy'n gysylltiedig â'r taliad yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.

Os bydd cynlluniau pensiwn yn cynnig disgrisiwn i gyflogwyr i bennu a yw taliad bonws yn bensiynadwy ai peidio, caiff cyflogwyr eu hannog i drin y taliad fel un nad yw'n bensiynadwy er mwyn cynyddu mantais y taliad i'r gweithiwr.

Sut mae cyflogwyr yn pennu ac yn dangos tystiolaeth o gostau Yswiriant Gwladol a phensiwn cyflogwyr?

Yswiriant Gwladol

Os yw cyflogres y gweithiwr yn creu cost yswiriant gwladol o fwy na £101.43, dylai'r cyflogwr gynnwys £101.43 fel ei gost yswiriant gwladol ychwanegol ar ei ffurflen hawlio.

Os yw cyflogres y gweithiwr wedi creu cost yswiriant gwladol o lai na £101.43, dylai'r cyflogwr gynnwys cost lawn yswiriant gwladol y gweithiwr ar ei ffurflen hawlio.

Os nad yw cyflogres y gweithiwr wedi creu cost yswiriant gwladol, ni ddylid cynnwys unrhyw gost yswiriant gwladol ar ei ffurflen hawlio.

Pensiynau

Os yw'r taliad yn bensiynadwy o dan delerau ac amodau'r gweithiwr, dylai cyflogwr gyfrifo cyfanswm cost pensiwn y cyflogwr fel canran o gyfanswm y cyflog cyn unrhyw ddiidyniadau. Yna defnyddiwch y ganran hon gyda £735 a chynnwys y ffigur hwn yn eu ffurflen hawlio.

Beth sy'n digwydd os yw gweithiwr gofal cymwys wedi marw?

Os bydd gweithiwr gofal cymwys wedi marw, caiff y taliad ei wneud i'w ystad. Ni fydd y taliad hwn yn dylanwadu nac yn cael ei ddylanwadu gan unrhyw gyllid arall gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd i helpu teuluoedd gweithwyr gofal sydd wedi marw o ganlyniad i'r pandemig Covid-19.

Ffurflenni

Dylid cyflwyno ffurflen 1, y ffurflen hawlio ar gyfer gweithwyr, fel y'i darparwyd, oni bai:

- bod angen i awdurdod lleol newid yr adran "Sut caiff eich gwybodaeth bersonol ei defnyddio" i gydymffurfio â'i brotocolau GDPR; neu
- bod awdurdod lleol yn dymuno egluro rolau a chyfrifoldebau'n ymwneud a thaliadau i gynorthwyr personol.

Caiff pob ffurflen arall ei darparu ar fformat Microsoft Excel a dylid ei defnyddio fel y'i darparwyd.

Pwy ddylai ddefnyddio'r ffurflenni?

Awdurdodau Lleol

Ffurflen 2 – i gyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru ar gyfer staff a gyflogir gan yr awdurdod lleol.

Ffurflen 6 – i gyflwyno hawliad i Lywodraeth Cymru i adennill y costau o dalu darparwyr gofal, asiantaethau a chynorthwyr personol.

Darparwyr Gofal

Ffurflen 3a – i gyflwyno enwau staff cymwys a gyflogir yn uniongyrchol i'r awdurdodau lleol i wneud cais am £735.

Ffurflen 3b – i gyflwyno enwau staff asiantaeth cymwys i'r awdurdodau lleol.

Ffurflen 4 – i gyflwyno hawliad terfynol i'r awdurdod lleol ar ôl gwneud taliadau i weithwyr i adennill unrhyw:

- gostau pensiwn ac yswiriant gwladol cyflogwr;
- hawlio'r ad-daliad gorbenion, sef £2 am bob cais; a/neu
- hawlio unrhyw ardoll brentisiaethau.

Asiantaethau

Ffurflen 3a – i gyflwyno enwau staff asiantaeth cymwys i'r awdurdodau lleol i wneud cais am £735.

Ffurflen 5 – i gyflwyno hawliad terfynol i'r awdurdod lleol ar ôl gwneud taliadau i weithwyr asiantaeth, er mwyn adennill costau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr a hawlio £1 o ad-daliad gorbenion

Gweithwyr cymwys

Ffurflen 1 – i hawlio'r taliad

Ffurflen 1 - Ffurflen hawlio'r gweithiwr.

Rydych wedi cael y ffurflen hon gan eich cyflogwr oherwydd ei fod yn credu eich bod yn gymwys ar gyfer y taliad o £735 i weithwyr gofal a gyhoeddwyd gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ar 17 Mawrth 2021.

Mae'r meini prawf ar gyfer bod yn gymwys i gael y taliad hwn i'w gweld yn:

<https://llyw.cymru/cynllun-cydnabyddiaeth-ariannol-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-y-gig-gofal-cymdeithasol-canllawiau-i>

<https://gov.wales/nhs-and-social-care-financial-recognition-scheme>

Os ydych yn dymuno gwneud cais am daliad o £735, rhaid ichi fod wedi'ch cyflogi mewn swydd gymwys rhwng 1 Mehefin 2020 a 28 Chwefror 2021.

Os ydych credu eich bod yn gymwys, llofnodwch a dychwelyd y datganiad ar waelod y ffurflen hon.

Dim ond unwaith mae gennych chi hawl i hawlio'r taliad hwn, waeth faint o swyddi cymwys rydych wedi ymgymryd â nhw. Bydd archwiliadau helaeth yn cael eu cynnal i ganfod taliadau dyblyg a bydd ceisio hawlio'r taliad hwn fwy nag unwaith yn cael ei ystyried yn dwyll.

Os oeddech chi'n gweithio i'r GIG rhwng xx Mawrth 2020 a 28 Chwefror 2021 ac yn cael eich cyflogi gan y GIG ar hyn o bryd, byddwch yn cael y taliad hwn fel rhan o'ch cyflog GIG ac ni ddylech lenwi a chyflwyno'r ffurflen hon. Bydd cyflwyno'r ffurflen hawlio hon a derbyn y taliad drwy dâl y GIG yn cael ei ystyried yn dwyll.

Bydd y swm yn cael ei dalu ichi drwy gyflogres eich cyflogwr. Mae'r taliad yn cael ei gyfrif fel enillion a bydd angen talu treth incwm ac yswiriant gwladol arno. Os ydych yn talu treth ac yswiriant gwladol, bydd y cyfraniadau hyn yn cael eu cymryd o'ch taliad. Mae mwy o wybodaeth am dreth incwm a chyfraddau yswiriant gwladol ar gael yma:

Treth Incwm <https://www.gov.uk/income-tax-rates>

Yswiriant gwladol <https://www.gov.uk/national-insurance-rates-letters>

Gan fod y taliad cael ei gyfrif fel enillion, bydd yn cael ei gynnwys wrth gyfrif unrhyw fudd-daliadau rydych yn eu derbyn. Mae hyn yn cynnwys credyd cynhwysol a chredydau treth yn ogystal â budd-daliadau eraill fel budd-dal tai neu gymhorthdal incwm.

Mae rhagor o wybodaeth am fudd-daliadau ar gael yma:

<https://www.gov.uk/browse/benefits/entitlement>

Os ydych yn derbyn budd-daliadau, rydym yn eich cynghori'n gryf i gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau (neu cysylltwch â'ch anogwr gwaith os ydych yn derbyn credyd cynhwysol) er mwyn ichi allu deall yn iawn beth fydd y taliad yma yn ei olygu i chi.

Bydd y taliad hefyd yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r ad-daliad ar gyfer unrhyw fenthyciadau myfyrwyr sydd heb eu talu.

Mae mwy o wybodaeth am ad-dalu benthyciadau myfyrwyr ar gael yma:

<https://www.gov.uk/repaying-your-student-loan>

Bwriad y cynllun hwn yw rhoi un taliad £735 i chi cyn gynted ag y bo modd. Ond mae'n bosibl y byddai'n well gennyhych dderbyn £147 y mis am bum mis. Os byddai'n well gennyhych yr opsiwn hwn, nodwch hynny'n glir isod. Dim ond os ydych yn cael eich cyflogi'n rheolaidd ac yn dal i gael eich cyflogi gan y cyflogwr a fydd yn gwneud y taliad i chi y bydd yr opsiwn talu hwn ar gael ichi.

Os, am unrhyw reswm, y byddwch yn cael mwy nag un ffurflen hawlio, dylech gyflwyno un yn unig (gan roi gwybod i'r ddau gyflogwr eich bod wedi cael dwy ffurflen a'ch bod yn dychwelyd un heb lofnod). **Bydd cyflwyno mwy nag un ffurflen hawlio yn cael ei ystyried yn dwyll.**

Os, am unrhyw reswm, y byddwch yn cael dau daliad (hyd yn oed os mai dim ond un ffurflen hawlio a gyflwynoch chi) dylech roi gwybod i'ch cyflogwr/wyr a rhoi un o'r taliadau yn ôl. Os yw'r taliadau o werth gwahanol am unrhyw reswm, dylech ddychwelyd yr un sydd â'r gwerth isaf (i chi).

Er mwyn gweinyddu'r taliad hwn, bydd angen i'ch cyflogwr rannu rhywfaint o wybodaeth bersonol amdanoch chi ag Awdurdod Lleol a sefydliad(au) a fydd yn chwilio am daliadau dyblyg.

Sut bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio

Os byddwch yn hawlio'r taliad o £735 i gydnabod gofal cymdeithasol, bydd eich cyflogwr yn rhannu gwybodaeth fel eich enw llawn, eich rhif yswiriant gwladol, a'r dyddiad y cafodd y taliad ei wneud i chi a'r math o rôl gymwys roeddech chi wedi'i chyflawni â'r Awdurdod Lleol sy'n gweinyddu'r cynllun ar ran Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cael ei rhannu â Data Cymru (cwmni llywodraeth leol) a Chydwasanaethau GIG Cymru a fydd yn cynnal archwiliadau i sicrhau nad oes unrhyw daliadau dyblyg wedi cael eu gwneud.

Os hoffech wybod mwy am sut y bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio i weinyddu'r cynllun a gwneud y taliad i chi, siaradwch â'ch cyflogwr.

Rhowch eich lofnod a'r dyddiad isod a dychwelyd y ffurflen i'ch cyflogwr.

Gallwch lofnodi fersiwn electronig o'r ffurflen hon drwy deipio eich enw, eich rhif yswiriant gwladol, enw'r cyflogwr a'r dyddiad isod ac anfon y ffurflen o gyfeiriad e-bost sydd yn eich enw chi a/neu sydd wedi'i gofrestru â'ch cyflogwr.

Datganiad

Drwy lofnodi a dychwelyd y ffurflen hon rydych yn cytuno â'r datganiadau canlynol:

Hoffwn hawlio'r taliad o £735 i weithwyr gofal

Dyma'r unig ffurflen hawlio rwy'n ei chyflwyno

Nid wyf yn disgwyl cael y taliad hwn drwy dâl GIG.

Os byddaf yn derbyn mwy nag un taliad, byddaf yn rhoi gwybod i'm cyflogwyr

Rwy'n cytuno y bydd fy nghyflogwr yn rhoi fy enw a'm rhif yswiriant gwladol i awdurdod lleol er mwyn i'r taliad hwn gael ei wneud.

Rwy'n ymwybodol y gallai'r taliad hwn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau rwyf yn eu derbyn neu gefnogaeth a roddir imi i dalu treth y cyngor.

Dylech ddileu un o'r canlynol*:

Hoffwn dderbyn yr arian mewn un taliad o £735

Byddai'n well gen i dderbyn yr arian mewn pum taliad o £147 dros gyfnod o bum mis olynol.

*dim ond os yw staff yn cael eu talu'n fisol, a'u bod yn dal i weithio i'r cyflogwr, maen nhw'n cael y dewis o dderbyn yr arian mewn pum taliad o £147

Llofnod:

Enw:

Rhif yswiriant gwladol:

Enw'r Cyflogwr:

Dyddiad: